ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS FAWRTH 7fed MEHEFIN 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:	Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:	Cynghorydd:
Mel Goch ap Meirion	Annwen Daniels
Erwyn Jones	Bedwyr Gwilym
Rory Francis	Ronwen D Roberts
Gareth W Jones	

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

Gan nad oedd y Cerddwr Llwybrau yn bresennol ni fu'n bosib trafod yr adroddiad llwybrau

Cytunodd y Cynghorydd Rory Francis i baratoi swydd ddisgrifiad ar gyfer y Cerddwr Llwybrau.

Gofynnwyd i'r Clerc danfon yr adroddiad ymlaen at Gyngor Gwynedd er mwyn cael caniatâd i wneud unrhyw waith brys sydd o fewn ein hawliau.

Nodyn

Yn dilyn sgwrs gyda Mrs Liz Haynes ar y ffon -

Byddai yn dda beth cael y tywydd ar y pryd ar yr adroddiad llwybrau hefyd.

Mae Mr Michael Barnett o Drawsfynydd (cyfansoddwr byd enwog sydd yn ysgrifennu'r Kittywake Guides) gyda diddordeb mewn cysylltu a'r Cyngor Tref i gael cyd weithio ar bratoi taflen ynglyn a llwybrau'r plwyf.

Mae clo yn cael ei osod ar y giat mochyn yn Cwmorthin er mwyn ei gwneud yn annodd i fynd a beic modur yno. Mater i'r heddlu iw hwn a dylai pob achlysur gael ei adrodd i'r heddlu a chael 'incident no'.

Cyfarfod wedi bod yn swyddfa'r Parc ynglyn a beiciau modur yn ardal y Parc ond cafodd Cwmorthin ei drafod hefyd. Syniad hwyach o drio eto i gael tir lleol ar gyfer traciau beiciau modur drwy gyd weithrediad gyda'r heddlu, Cyngor Gwynedd. Y Parc a thirfeddiannwyr lleol.